

# Nwy a Thrydan ScottishPower

Telerau ac Amodau Cyffredinol  
ar gyfer Cwsmeriaid Domestig



**SCOTTISHPOWER**

### 1 Mae gan y geiriau a restrir isod yr ystyrion canlynol yn y telerau ac amodau hyn ac yn y Cais neu Gytundeb Llafar a Llythyr:

#### Ailasesiad Blynyddol

Yr adeg bob blwyddyn pan fyddwn yn gwirio a oes angen newid eich swm debyd uniongyrchol misol i adlewyrchu'n gywir cost y Tanwydd rydych chi'n ei ddefnyddio;

#### Amcanestyniad Personol

Cost flynyddol amcangyfrifedig cyflenwi Tanwydd i chi dros gyfnod o 12 mis, a gyfrifir gan ddefnyddio'r wybodaeth orau sydd ar gael i ni am eich defnydd o Danwydd ac yn seiliedig ar eich Tariff presennol (neu, os oes llai na 12 mis ar ôl o'ch Tariff presennol, bydd yn seiliedig ar ein Tariff Bytholwyrdd rhataf sy'n gymwys ar gyfer gweddill y 12 mis). Bydd eich Amcanestyniad Personol yn cael ei ddarparu i chi:

- gyda'ch Datganiad Blynyddol (a elwir eich Crynodeb Blynyddol);
- gydag unrhyw fil; a
- phryd bynnag y rhoddwn wybodaeth i chi am y Prif Delerau;

#### Anfantais Ariannol

Unrhyw golled uniongyrchol neu anuniongyrchol o ran elw, refeniw, llog, busnes, ewyllys da neu gyfle masnachol, marchnad neu economaidd;

#### Cais

Y cais, sy'n cynnwys rhai o'r telerau ac amodau hyn, neu bob un ohonynt, a wnaed gennych chi i ni yn ysgrifenedig neu drwy Gais Ar-lein am gyflenwi Tanwydd yn yr Eiddo;

#### Cais Ar-lein

Y cais a wnaed gennych chi trwy'r rhyngwrdd, ein mewnrwyd ni a/neu unrhyw gyfrwng tebyg ar gyfer cyflenwi Tanwydd yn yr Eiddo;

#### Cludwr

Y cludwr nwy sy'n gweithredu a/neu'n berchen ar y system piblinellau nwy prif gyflenwad y mae nwy'n cael ei gludo trwyddi i'r Eiddo;

#### Cyflenwr Nwy

Unigolyn sydd wedi'i awdurdodi i gyflenwi nwy prif gyflenwad o dan Ddeddf Nwy 1986, fel y'i diwygiwyd;

#### Cyflenwr Tanwydd

Unigolyn sydd wedi'i awdurdodi i gyflenwi nwy prif gyflenwad a/neu drydan o dan Ddeddf Nwy 1986, fel y'i diwygiwyd, neu Ddeddf Trydan 1989, fel y'i diwygiwyd;

#### Cyflenwr Trydan

Unigolyn sydd wedi'i awdurdodi i gyflenwi trydan o dan Ddeddf Trydan 1989, fel y'i diwygiwyd;

#### Cyfradd Cymharu Tariffau

Ffigur sy'n rhoi syniad i chi o'r gost fesul uned o nwy neu drydan ar gyfer eich Tariff, yn seiliedig ar ddefnyddiwr nodweddiadol, ac sy'n eich galluogi chi i gymharu eich Tariff presennol â Thariffau eraill sydd ar gael i chi;

#### Cyfradd Uned

Y swm ariannol sy'n daladwy am bob uned o Danwydd a ddefnyddir gennych chi;

#### Cynllun Talu Credyd Debyd Uniongyrchol

Mae hyn yn golygu ein cynllun a allai dalu credyd i'ch cyfrif (ar ôl didynnu'r holl daliadau cyflenwi Tanwydd perthnasol):

- os yw eich cyfrif mewn credyd o rhwng can punt (£100) a phum can punt (£500) sterling; ac
- os yw'n ofynnol i chi dalu trwy ddebyd uniongyrchol misol yn rhan o'ch Cytundeb;

#### Cytundeb

Y cytundeb y byddwn yn cyflenwi Tanwydd i chi o dan Dariff sydd ar gael fel yr amlinellir yn y telerau ac amodau hyn. Mae hyn yn cynnwys y Cais a gwblhawyd gennych chi fel y'i derbyniwyd gennym ni neu'r Cytundeb Llafar a Llythyr;

#### Cytundeb Gwasanaeth Ynni Ar-lein

Cytundeb sy'n ymdrin â'r gwasanaethau ynni ar-lein a ddarperir gennym ni;

#### Cytundeb Llafar

Y cytundeb llafar rhyngom ni a chi am gyflenwi Tanwydd i'r Eiddo, sy'n cael ei gofnodi a'i fanylu yn y Llythyr a'r telerau ac amodau hyn;

#### chi, eich

- o ran Cais, yr unigolyn y cyfeirir ato yn y Cais fel y "cwsmer"; neu
- o ran Cytundeb Llafar, yr unigolyn y cyfeirir ato yn y Llythyr fel y "cwsmer".

#### Datganiad Blynyddol

Y Crynodeb ysgrifenedig sy'n cynnwys gwybodaeth am eich defnydd o Danwydd, ac y byddwn yn ei roi i chi unwaith ar gyfer pob cyfnod 12 mis tra byddwn ni'n gyflenwr Tanwydd i chi;

#### Datgysylltu, datgysylltiad

- o ran nwy, i atal nwy rhag symud o system piblinellau nwy'r prif gyflenwad i'r Offer yn yr Eiddo; ac
- o ran trydan, i atal trydan rhag symud o'r rhwydwaith dosbarthu trydan sy'n cael ei weithredu gan y Dosbarthwr a/neu sydd ym mherchenogaeth y Dosbarthwr, i'r Offer yn yr Eiddo;

#### Diwrnod Gwaith

Unrhyw ddiwrnod heblaw ddydd Sadwrn, dydd Sul, Dydd Nadolig, Dydd Gwener y Groglith neu wyl banc y Deyrnas Unedig;

#### Dosbarthwr

Y dosbarthwr trydan sy'n gweithredu a/neu'n berchen ar y rhwydwaith dosbarthu trydan sydd wedi'i gysylltu â'r Pwynt Cysylltu y mae trydan yn cael ei gludo trwyddo i'r Eiddo;

#### Eiddo

Y man lle y byddwn yn cyflenwi Tanwydd i chi, a fydd yn cael ei nodi yn eich Cais neu Lythyr;

#### Hysbysiad Diwedd Cyfnod Penodol

Yr hysbysiad y byddwn ni'n ei roi i chi cyn diwedd Tariff Cyfnod Penodol, yn eich cyngori ar eich dewisiadau ac yn esbonio beth fydd yn digwydd os na fyddwch chi'n cytuno i ymestyn hyd y Cytundeb neu wneud Cytundeb newydd gyda ni (Amod 7.3);

#### Hysbysiad o Gynnydd mewn Prisïau

Hysbysiad o unrhyw gynnydd mewn taliadau sy'n daladwy o dan eich Tariff. Byddwn yn rhoi o leiaf 30 niwrnod o rybudd i chi cyn i unrhyw gynnydd o'r fath ddod i rym;

#### Label Gwybodaeth am Dariffau

Y tabl ffeithiau allweddol sy'n caniatáu i chi gymharu tariffau ynni'n gyfartal ar sail nodweddiad sy'n ymwneud â phrisïau a nodweddiad nad ydynt yn ymwneud â phrisïau, sydd ar gael ar ein gwefan [www.scottishpower.co.uk/tariff-information](http://www.scottishpower.co.uk/tariff-information);

#### Llythyr

Y llythyr oddi wrthym ni, atoch chi, sy'n amlinellu ein Cytundeb gyda chi;

#### ni, ein

ScottishPower Energy Retail Limited, y mae ei swyddfa gofrestredig yn 320 St. Vincent Street, Glasgow G2 5AD;

#### Ofgem

Yr Awdurdod Marchnadoedd Nwy a Thrydan;

#### Offer

- o ran nwy, falffau'r mesurydd(ion), rheolyddion gwasgedd, pibellau, a'r cyfarpar arall a ddefnyddir i gyflenwi nwy i'r Eiddo; ac
- o ran trydan, y llinellau a'r offer sy'n cyflenwi trydan i'r Eiddo;

#### Prif Delerau

Y telerau a osodir ar ein gwefan yn [www.scottishpower.co.uk](http://www.scottishpower.co.uk) ac a roddir i ddarpar gwsmeriaid cyn iddynt wneud unrhyw Gytundeb Llafar ac sy'n amlinellu rhai o'r telerau ac amodau hyn, neu bob un ohonynt, gan gynnwys mewn cysylltiad â:

- thaliadau ac unrhyw ofynion diogelwch sy'n berthnasol i'r telerau ar gyfer cyflenwi Tanwydd i chi gennym ni (gan gynnwys telerau yn ymwneud â'ch dull talu);
- unrhyw derfynau defnydd Tanwydd a chredyd sy'n berthnasol i gyflenwi Tanwydd i chi gennym ni; a
- hawliau a rhwymedigaethau terfynu a hyd mewn perthynas â chyflenwi Tanwydd i chi gennym ni;

#### Pwynt Cysylltu

Y pwynt lle mae'r Eiddo'n wedi ei gysylltu â'r rhwydwaith dosbarthu trydan sy'n cael ei weithredu gan y Dosbarthwr a/neu sydd ym mherchenogaeth y Dosbarthwr;

#### Rheoliadau

Rheoliadau Diogelwch, Ansawdd a Pharhad Trydan 2002 fel y'u diwygiwyd neu y'u disodlwyd dros amser;

#### Tâl Sefydlog

Y swm ariannol (a allai fod yn sero) a godir arnoch chi bob dydd, yn ogystal â thaliadau Cyfradd Uned ar gyfer eich defnydd o Danwydd;

#### Tanwydd

Os, yn y Cais neu'r Cytundeb Llafar, gwnaethoch chi ddewis:

- cyflenwad nwy, prif gyflenwad;
- cyflenwad trydan, trydan; a
- chyflenwad nwy a thrydan, nwy prif gyflenwad a thrydan;

#### Tariff

Y pris rydych chi'n ei dalu am Danwydd, ynghyd ag unrhyw Delerau ac Amodau penodol sy'n berthnasol i'r pris hwnnw, a gynigir gennym ni ar gyfer cyflenwi Tanwydd i chi;

#### Tariff Amser Defnyddio

Tariff lle mae'r taliadau cyflenwi'n amrywio yn dibynnu ar yr adeg o'r dydd pryd y defnyddir Tanwydd;

#### Tariff Bytholwyrdd

Tariff sy'n cael ei gynnig gennym ni ar gyfer cyflenwi Tanwydd o dan contract hyd amhenodol;

#### Tariff Cyfnod Penodol

Tariff â dyddiad olaf penodol lle na fydd y taliadau (sy'n cynnwys Cyfradd Uned a Thâl Sefydlog) ac unrhyw ostyngiadau sydd ar gael yn newid, oni bai bod amrywiad yn cael ei ganiatáu o dan y telerau ac amodau hyn;

#### Tariff Marw

Tariff Bytholwyrdd sydd wedi cael ei dynnu'n ôl ac nad yw ar gael bellach i gwsmeriaid newydd;

#### Telerau Cysylltu Cenedlaethol

Telerau cysylltu cenedlaethol y Dosbarthwr, y cyfeirir atynt ar ddiwedd y telerau ac amodau hyn;

#### Trethi

- TAW ac unrhyw dreth, ardoll, tâl neu doll sy'n gysylltiedig â chyflenwi Tanwydd a/neu ddarparu'r gwasanaethau a ddarperir o dan y Cytundeb Gwasanaeth Ynni Ar-lein.
- O ran nwy, mae 'Trethi' hefyd yn cynnwys unrhyw TAW a thaliadau eraill sy'n daladwy i'n cyflenwyr a'n cludwyr nwy; ac
  - o ran trydan, mae 'Trethi' hefyd yn cynnwys unrhyw TAW a thaliadau eraill sy'n daladwy i'r rhai hynny sy'n dosbarthu neu'n trawsyrru trydan i ni;

#### Trwydded

- o ran nwy, y drwydded cyflenwi nwy a roddwyd i ni o dan Ddeddf Nwy 1986, fel y'i diwygiwyd; ac
- o ran trydan, y drwydded cyflenwi trydan a roddwyd i ni o dan Ddeddf Trydan 1989, fel y'i diwygiwyd.

## Rhan 2 Amodau cyflenwi tanwydd cyffredinol

### 2 Cyn i ni allu cyflenwi tanwydd i chi

- 2.1 Byddwn yn cyflenwi Tanwydd i chi dim ond pan fyddwch chi wedi darparu'r wybodaeth sy'n angenrheidiol i ni fod yn gwbl awdurdodedig neu gofrestredig i gyflenwi nwy a/neu drydan i chi, fel y bo'n berthnasol. Disgwylwch i'r gofynion hynny gael eu bodloni a byddwn yn cymryd pob cam rhesymol i wneud hynny. Fodd bynnag, os na chânt eu bodloni o fewn cyfnod rhesymol ar ôl dyddiad eich Cais neu ein Cytundeb Llafar, mae'n bosibl y byddwn ni (heb atebolrwydd) yn rhoi hysbysiad ysgrifenedig i chi bod y Cytundeb wedi dod i ben ac y byddwch chi'n aros yn gwsmer eich Cyflenwr Nwy a/neu Gyflenwr Trydan presennol.
- 2.2 Byddwn yn dechrau trosglwyddo eich cyfrif i ni cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl i chi lunio Cytundeb gyda ni, a byddwn yn cymryd pob cam rhesymol i drosglwyddo'r cyflenwad Tanwydd i'ch Eiddo o'ch Cyflenwr Nwy a/neu Gyflenwr Trydan presennol i ni o fewn 21 diwrnod o'r dyddiad pryd y lluniwch Gytundeb gyda ni, oni bai:
- 2.2.1 eich bod chi'n gofyn i ni ddechrau eich cyflenwad ar ddyddiad diweddarach;
- 2.2.2 bod eich Cyflenwr Nwy a/neu Gyflenwr Trydan presennol yn atal y trosglwyddo, fel y gall ei wneud o dan ei drwydded gyflenwi;
- 2.2.3 nad oes gennym ni'r holl wybodaeth sydd ei hangen arnom i gwblhau'r trosglwyddo, ac:
- (a) rydym wedi cymryd pob cam rhesymol i gael y wybodaeth sydd ar goll gennych chi a/neu eich Cyflenwr Nwy a/neu Gyflenwr Trydan presennol ond nid yw'r wybodaeth wedi'i rhoi i ni, neu mae'r wybodaeth a roddwyd i ni yn anghywir; ac
- (b) nid yw'r wybodaeth sydd ar goll ar gael yn rhwydd i ni o fan arall;
- 2.2.4 na allwn gwblhau'r trosglwyddo oherwydd rhywbeth arall rydych chi wedi'i wneud neu wedi methu â'i wneud;
- 2.2.5 eich bod yn canslo'r Cytundeb yn ystod eich "cyfnod ailfeddwl" o dan Amod 2.3; neu
- 2.2.6 fod Amod 2.5 yn berthnasol (nid yw'r mesurydd trydan yn addas ar gyfer unrhyw dariff sydd ar gael gennym ni).

Yn unrhyw achos, byddwn yn gwneud yr hyn a allwn i gwblhau'r trosglwyddo o fewn 21 diwrnod, ac eithrio'r amser sydd ei angen i ddatrys unrhyw un o'r eithriadau.

- 2.3 Cewch ganslo'r Cytundeb trwy roi gwybod i ni ar unrhyw adeg yn ystod eich cyfnod "ailfeddwl" nad ydych eisiau i ni gyflenwi Tanwydd i chi. Bydd eich "cyfnod ailfeddwl" yn dechrau ar y diwrnod pryd y daw'r Cytundeb i rym (gweler Amod 6.1) ac yn dod i ben 14 diwrnod ar ôl (i) y diwrnod pryd y daw'r Cytundeb i rym neu (ii) os yw'n hwyrach, y dyddiad pryd y derbyniwch gadarnhad o'r Cytundeb gennym ni (boed hynny trwy gyfrwng llythyr cadarnhau, pecyn croeso neu fel arall). Fodd bynnag, gan ein bod yn gallu dechrau cyflenwi Tanwydd i chi cyn i'ch "cyfnod ailfeddwl" ddod i ben, os dechreuwn gyflenwi Tanwydd i chi a'ch bod yn canslo'r Cytundeb wedi hynny o fewn eich "cyfnod ailfeddwl", gallwn godi tâl arnoch am y Tanwydd a ddefnyddiwyd hyd at adeg canslo'r Cytundeb neu (os yw'n hwyrach) y dyddiad pryd y cwblheir eich trosglwyddiad i Gyflenwr Tanwydd newydd.
- 2.4 Trwy gydol cyfnod y Cytundeb, chi fydd perchennog neu feddiannwr yr Eiddo, a fydd wedi'i gysylltu â phiblinellau'r prif gyflenwad nwy a/neu'r system dosbarthu trydan (fel y bo'n briodol). Ni fyddwn yn cyflenwi mwy o drydan neu nwy i chi nag y mae gennych hawl i'w dderbyn trwy'r Pwynt Cysylltu neu gan y Cludwr.

#### Beth fydd yn digwydd os oes problem gyda'ch mesurydd trydan

- 2.5 Os nad yw'r mesurydd trydan yn addas ar gyfer unrhyw dariff sydd ar gael gennym ni, nid oes rhaid i ni ddod yn Gyflenwr Trydan i chi nac aros yn Gyflenwr Trydan i chi. Os ydym ni'n gwybod am y broblem gyda'r mesurydd:
- 2.5.1 **cyn** i ni ddod yn Gyflenwr Trydan cofrestredig i chi, fe allwn (heb atebolrwydd) roi gwybod i chi yn ysgrifenedig ein bod ni'n tynnu'n ôl o'r broses gofrestru ac y byddwch chi'n aros yn gwsmer eich Cyflenwr Trydan presennol; neu

2.5.2 **ar ôl** i ni ddod yn Gyflenwr Trydan cofrestredig i chi, fe allwn dynnu'n ôl o fod eich Cyflenwr Trydan cofrestredig. Os byddwn yn tynnu'n ôl, fe allwn (heb atebolrwydd) derfynu'r Cytundeb cyflenwi trydan trwy roi gwybod i chi yn ysgrifenedig. Byddwn yn parhau i gydymffurfio â'r holl ddyletswyddau cyfreithiol mewn perthynas â chi.

2.6 Os ydych chi wedi dewis cael cyflenwad nwy a thrydan ond mae problem gyda'ch mesurydd trydan ac nid ydych am i ni gyflenwi nwy i chi mwyach:

2.6.1 **os nad ydym ni wedi'n cofrestru** fel eich Cyflenwr Nwy eto am unrhyw reswm a ddisgrifir yn Amod 2.2 uchod, gallwch ofyn i ni gymryd pob cam rhesymol i beidio â bod eich Cyflenwr Nwy; ac

2.6.2 **os ydym ni wedi'n cofrestru** fel eich Cyflenwr Nwy, byddwn (heb atebolrwydd) yn terfynu'r Cytundeb cyflenwi nwy trwy roi gwybod i chi yn ysgrifenedig. Mewn amgylchiadau o'r fath, byddwn yn tynnu'n ôl o fod eich Cyflenwr Nwy. Byddwn yn parhau i gydymffurfio â'r holl ddyletswyddau cyfreithiol mewn perthynas â chi.

2.7 Byddwch yn berchen ar eich Eiddo neu'n ei feddiannu yn ystod y Cytundeb. Bydd eich Eiddo wedi'i gysylltu â'r rhwydwaith dosbarthu trydan wrth y Pwynt Cysylltu a/neu wedi'i gysylltu â'r system piblinellau nwy.

### 3 Diogelwch ac argyfyngau

#### Nwy

3.1 Ni fyddwch yn defnyddio nwy mewn ffordd sy'n debygol o greu unrhyw risg i iechyd neu ddiogelwch unrhyw unigolyn neu risg o ddifrod i eiddo neu effeithio ar y cyflenwad nwy i bobl eraill.

3.2 Os byddwch chi'n amau gollyngiad nwy, neu ddifrod i Offer a allai arwain at ollyngiad nwy, mae'n rhaid i chi roi gwybod i'r Cludwr ar unwaith. Y rhif ffôn yw 0800 111 999. Byddwn yn rhoi gwybod i chi os bydd y rhif ffôn yn newid.

3.3 Os bydd rhaid i ni atal neu gyfyngu ar y cyflenwad nwy i gwsmeriaid penodol o dan y gyfraith neu reoliadau, am gyn hired ag y mae'n ofynnol i ni gydymffurfio:

3.3.1 gallwn atal neu gyfyngu ar eich cyflenwad nwy; a

3.3.2 byddwch yn dilyn unrhyw un o'r cyfarwyddiadau a roddwn i chi am eich defnydd o nwy.

#### Trydan

3.4 Gallwn atal neu newid y cyflenwad trydan i'r Pwynt Cysylltu mor aml ac am gyn hired ag y mae angen i ni wneud hynny os ydym ni'n ystyried ei bod yn angenrheidiol:

3.4.1 i osgoi perygl, neu oherwydd y byddem ni'n torri'r gyfraith neu unrhyw Reoliadau trwy beidio ag atal neu newid y cyflenwad;

3.4.2 i osgoi methiant neu ymyrraeth â'n cyflenwad o drydan i unrhyw unigolyn arall oherwydd unrhyw fethiant gennych chi i gydymffurfio â'ch rhwymedigaethau o dan y Rheoliadau;

3.4.3 os yw'r Dosbarthwr yn gostwng y swm mwyaf y gall y Pwynt Cysylltu ei dderbyn, neu os yw'r Pwynt Cysylltu'n cael ei ddatgysylltu; neu

3.4.4 os byddwch chi'n torri'r Cytundeb mewn unrhyw ffordd.

#### Cyffredinol

3.5 Lle'r ydych chi wedi achosi'r ataliad, cyfyngiad a/neu ddatgysylltiad, mae'n bosibl y bydd yn rhaid i chi dalu ffi resymol i adfer eich cyflenwad nwy a/neu drydan.

### 4 Mynediad ac offer

#### Mynediad ar gyfer unigolion awdurdodedig

4.1 Byddwch yn caniatáu i ni, y Cludwr, y Dosbarthwr neu unrhyw unigolyn arall a awdurdodir gan y Cludwr, y Dosbarthwr neu ni, gael hawliau mynediad llawn, rhydd a diogel i'ch Eiddo:

4.1.1 ar bob adeg os yw'r Cludwr, y Dosbarthwr neu ni'n credu bod hynny'n angenrheidiol i atal a/neu ddatgysylltu'r cyflenwad er mwyn osgoi perygl i fywyd neu eiddo; ac

4.1.2 ar bob adeg resymol at unrhyw ddiben arall a awdurdodir gan Ddeddf Nwy 1986 neu Ddeddf Trydan 1989.

#### Offer

4.2 Byddwch yn caniatáu i'r Cludwr neu'r Dosbarthwr (fel y bo'n briodol) neu unrhyw unigolyn arall a awdurdodwyd gan y Cludwr neu'r Dosbarthwr, osod, gweithredu, cynnal a chadw, atgyweirio neu amnewid unrhyw Offer ar ochr y Cludwr neu'r Dosbarthwr, ond yn cynnwys, y mesurydd.

4.3 Byddwch yn caniatáu i ni, neu unrhyw unigolyn arall a awdurdodwyd gennym, osod, gweithredu, cynnal a chadw, darllen, datgysylltu, atgyweirio neu amnewid unrhyw Offer ar ochr y Cludwr neu'r Dosbarthwr, ond yn cynnwys, y mesurydd.

4.4 Chi fydd yn talu am gostau darparu ar eich cyfer neu osod unrhyw brif bibellau, pibellau neu beiriannau neu offer eraill y mae angen eu gosod, amnewid, mwyhau, ymestyn neu adnewyddu er mwyn i chi allu derbyn cyflenwad nwy'r prif gyflenwad neu drydan i'ch Eiddo.

4.5 Byddwch yn caniatáu i unrhyw offer mesur awdurdodedig sy'n gweithio'n iawn sydd wedi'i osod yn yr Eiddo aros yn ei le, oni bai eich bod chi am reoli eich trefniadau mesur yn unol ag Amod 4.9.

4.6 Chi fydd yn gyfrifol ar bob adeg am yr Offer ar eich ochr chi o'r mesurydd. Mae'n rhaid i chi sicrhau ei fod yn cael ei gynnal a'i gadw mewn cyflwr gweithio da, a'i fod yn cael ei weithredu yn unol â'r gyfraith.

4.7 Y darlleniad mesurydd fydd y dystiolaeth o faint o Danwydd rydym ni wedi'i gyflenwi i chi. Fodd bynnag, os oes anghytundeb ynglŷn â chywirdeb darlleniad o'r fath, byddwn yn trefnu i'r mesurydd gael ei archwilio a'i brofi. Bydd cost yr archwiliad a'r prawf hwnnw'n cael ei thalu gan yr unigolyn a amheodd gywirdeb y mesurydd os canfyddir bod y mesurydd yn gweithredu o fewn y terfynau cywirdeb sy'n ofynnol gan y gyfraith.

4.8 Mae'n rhaid i chi gymryd gofal rhesymol i gadw'r mesurydd yn rhydd rhag difrod neu ymyrraeth. Os na fyddwch yn gwneud hyn, bydd rhaid i chi ein talu ni am y costau rhesymol:

4.8.1 y byddwn ni'n eu talu neu'n mynd iddynt i atgyweirio neu amnewid y mesurydd; neu

4.8.2 y byddwn ni neu unrhyw un arall a awdurdodir gennym yn mynd iddynt i archwilio'r mesurydd o ganlyniad i fethiant gennych chi i gymryd gofal rhesymol am y mesurydd hwnnw.

4.9 Os ydych chi am gael eich mesurydd eich hun (heblaw gennym ni neu'r Cludwr neu'r Dosbarthwr, fel y bo'n briodol) a/neu wneud eich trefniadau eich hun ar gyfer darllen mesurydd, bydd rhaid i chi gael ein cymeradwyaeth i wneud hynny.

4.10 Os byddwch chi'n arfer eich hawliau o dan Amod 4.9, bydd rhaid i chi ganfod gwybodaeth am bob hawliad neu ganiatâd sy'n angenrheidiol i'ch caniatáu chi i ddefnyddio unrhyw fesurydd neu offer tebyg a osodwyd yn yr Eiddo i fesur faint o Danwydd a gyflenwir i'r Eiddo, a threfnu pob hawliad a chaniatâd o'r fath. Os byddwch chi'n trefnu i'ch mesurydd gael ei ddarllen neu ei weithredu gan rywun arall, byddwch chi'n ein talu ni am unrhyw golled neu ddifrod a ddioddefwn, a achoswyd gan yr unigolyn hwnnw.

4.11 Os byddwch chi'n gofyn i ni wneud unrhyw waith cysylltu, datgysylltu neu ailgysylltu ychwanegol, neu y mae angen i ni ei wneud, mae'n bosibl y byddwn yn codi ffi arnoch am ein costau wrth wneud y gwaith hwnnw, a bydd rhaid i chi dalu ein taliadau rhesymol.

### 5 Telerau cysylltu cenedlaethol

5.1 Trwy wneud y Cytundeb, rydych chi'n cytuno eich bod hefyd yn gwneud cytundeb yn uniongyrchol gyda'r Dosbarthwr yn unol â'r Telerau Cysylltu Cenedlaethol.

## Rhan 3 Amodau cyffredinol y cytundeb: Dechreuad, hyd, diwedd ac amrywiad

### 6 Dechreuad a pharhad y cytundeb

6.1 Bydd y Cytundeb hwn yn dod i rym pan fydd un o'r pethau canlynol yn digwydd:



6.1.1 ein bod ni'n cytuno dros y ffôn y byddwn yn darparu cyflenwad i chi;

6.1.2 eich bod chi'n llofnodi contract gerbron un o'n cynrychiolwyr; neu

6.1.3 eich bod chi'n cwblhau a chyflwyno Cais.

6.2 Eich bod chi'n ein penodi ni fel eich asiant at ddiben terfynu unrhyw contractau cyflenwi nwy a/neu drydan eraill ar eich rhan, fel y bo'r angen, i ganiatáu i'r Cytundeb ddod i rym.

## 7 Hyd y cytundeb

### Tariffau Bytholwyrdd

7.1 Bydd unrhyw Gytundeb o dan Dariff Bytholwyrdd yn parhau i fod yn berthnasol wrth fynd ymlaen oni bai ei fod yn terfynu neu'n newid yn unol â'r telerau hyn.

### Tariffau Cyfnod Penodol

7.2 Bydd unrhyw Gytundeb Tariff Cyfnod Penodol yn parhau i fod yn berthnasol hyd at ddyddiad terfyn y cyfnod penodol oni bai ei fod yn cael ei derfynu, disodli, newid neu ymestyn yn unol â'r telerau hyn neu unrhyw delerau sy'n benodol i'ch Tariff a allai fod yn berthnasol. Pan ddaw'r cyfnod penodol i ben, oni bai eich bod chi'n dewis opsiwn arall, byddwn yn eich symud i'n Tariff Bytholwyrdd rhataf sy'n gymwys.

7.3 Byddwn yn anfon Hysbysiad Diwedd Cyfnod Penodol ysgrifenedig atoch rhwng chwech a saith wythnos cyn dyddiad terfyn y cyfnod penodol. Byddwn yn esbonio beth fydd yn digwydd os na fyddwch yn cytuno yn ysgrifenedig i ymestyn y Cytundeb neu'n cytuno i wneud Cytundeb newydd gyda ni. Byddwn yn amlinellu eich dewisiadau ar gyfer parhau â'n cyflenwad Tanwydd i chi neu ei atal.

7.4 Yn ddarostyngedig i'n hawl i wrthwynebu yn Amod 7.5, lle:

7.4.1 y cawn hysbysiad o fewn 20 Niwrnod Gwaith o ddiwedd eich Tariff Cyfnod Penodol presennol (naill ai gennych chi neu Gyflenwr Tanwydd arall), eich bod chi'n bwriadu trosglwyddo i Gyflenwr Tanwydd arall; a

7.4.2 bod y broses trosglwyddo cyflenwad yn cael ei gwneud o fewn cyfnod rhesymol (30 niwrnod fel arfer) ar ôl i ni gael yr hysbysiad hwnnw, byddwn yn parhau i gyflenwi Tanwydd i chi ar eich Tariff Cyfnod Penodol presennol hyd nes bod y trosglwyddo'n cael ei gwblhau. Fodd bynnag, os byddwn yn nodi y byddai'n fwy buddiol i chi trwy eich symud i'n Tariff Bytholwyrdd rhataf sy'n berthnasol, byddwn yn eich symud i'r Tariff hwnnw o ddyddiad terfyn eich Tariff Cyfnod Penodol hyd nes bod y trosglwyddo'n dod i rym. Byddwn yn esbonio beth fydd yn digwydd yn eich Hysbysiad Diwedd Cyfnod Penodol.

7.5 Os oes gennych chi unrhyw daliadau sy'n ddyledus ar eich cyfrif, gallwn ddweud wrthych ein bod yn bwriadu atal y broses o drosglwyddo'ch cyflenwad hyd nes bod y taliadau hyn yn cael eu talu. Pan fo'r Amod hwn yn berthnasol, byddwn yn rhoi 30 Niwrnod Gwaith i chi o'r dyddiad y dywedwn wrthych ein bod yn bwriadu atal eich proses o drosglwyddo cyflenwad i dalu'r taliadau hynny i ni ac, os na fyddwch yn gwneud hynny, byddwn yn eich trosglwyddo i'n Tariff Bytholwyrdd rhataf sy'n berthnasol.

7.6 Byddwn yn parhau i godi tâl arnoch yn unol â'n Tariff Bytholwyrdd rhataf o ddyddiad terfyn eich Tariff Cyfnod Penodol hyd nes:

7.6.1 ein bod ni'n dechrau eich cyflenwi o dan Gytundeb newydd; neu

7.6.2 eich bod chi wedi talu unrhyw daliadau sy'n ddyledus i ni a bod Cyflenwr Tanwydd arall wedi'i awdurdodi neu ei gofrestru'n briodol i'ch cyflenwi chi, neu byddwn yn dechrau eich cyflenwi o dan Gytundeb newydd.

7.7 Os byddwch chi'n cytuno ar Dariff newydd gyda ni o fewn 20 Niwrnod Gwaith o ddiwedd eich Tariff Cyfnod Penodol presennol, byddwn yn parhau i'ch cyflenwi chi o dan eich Tariff Cyfnod Penodol presennol hyd nes bod y Cytundeb newydd yn dechrau (pryd y bydd y taliadau newydd yn berthnasol).

## 8 Terfynu'r cytundeb

8.1 Mae Terfynu'r Cytundeb yn yr Amod 8 hwn yn golygu:

8.1.1 terfynu'r cyflenwad nwy ar gyfer Cytundeb nwy yn unig neu elfen cyflenwi nwy Cytundeb i gyflenwi'r ddau Danwydd; neu

8.1.2 derfynu'r cyflenwad trydan ar gyfer Cytundeb trydan yn unig neu elfen cyflenwi trydan Cytundeb i gyflenwi'r ddau Danwydd; neu

8.1.3 derfynu'r cyflenwad nwy a thrydan deul ar gyfer Cytundeb i gyflenwi'r ddau Danwydd.

### Eich hawl i derfynu'r Cytundeb pan fyddwch chi'n symud cartref

8.2 Gallwch derfynu'r Cytundeb os byddwch chi'n gwerthu neu'n symud o'ch Eiddo a'ch bod chi'n rhoi dau Ddiwrnod Gwaith o rybudd i ni (neu unrhyw gyfnod rhybudd byrrach y gallm gytuno arno) cyn i chi symud. Byddwch yn parhau i fod yn gyfrifol am y cyflenwad hyd nes bod y Cytundeb yn dod i ben.

8.3 Os na fyddwch yn rhoi o leiaf ddau Ddiwrnod Gwaith o rybudd i ni eich bod chi'n symud, bydd y Cytundeb yn dod i ben:

8.3.1 dau Ddiwrnod Gwaith ar ôl i chi ddweud wrthym (a rhoi digon o dystiolaeth) eich bod chi wedi symud; neu

8.3.2 os yw'n gynt, pan fydd rhywun arall yn cytuno i gael cyflenwad Tanwydd i'r un Eiddo.

### Eich hawl i derfynu'r Cytundeb ar unrhyw adeg

8.4 Gallwch ddweud wrthym ar unrhyw adeg eich bod chi am derfynu'r Cytundeb. Bydd y Cytundeb yn dod i ben:

8.4.1 pan fydd Cyflenwr Tanwydd newydd yn cael ei awdurdodi i gyflenwi Tanwydd i'r Eiddo; neu

8.4.2 pan dderbyniwn hysbysiad gennych nad ydych yn trosglwyddo i Gyflenwr arall a'ch bod chi'n dymuno aros yn gwsmer i ni heb gymryd unrhyw gyflenwad nwy a/neu drydan; neu

8.4.3 pan ddaw'r cyfnod rhybudd (os oes un) a nodir yn nhelerau eich Tariff unigol i ben.

8.5 os byddwch chi'n dweud wrthym eich bod chi am derfynu eich Cytundeb ar gyfer Tariff Cyfnod Penodol, mae'n bosibl y bydd yn rhaid i chi dalu ffi derfynu os yw hynny'n ofynnol o dan delerau ac amodau arbennig eich Tariff Cyfnod Penodol. Fodd bynnag, ni fydd yn rhaid i chi dalu ffi derfynu:

8.5.1 os ydych chi'n cymryd camau i drosglwyddo i gyflenwr arall, ond nad ydych yn cwblhau'r broses drosglwyddo tan ar ôl diwedd eich Tariff Cyfnod Penodol;

8.5.2 os ydych chi'n cwblhau'r broses o drosglwyddo i gyflenwr arall ar unrhyw adeg ar ôl i ni roi Hysbysiad Diwedd Cyfnod Penodol i chi, oni bai eich bod chi eisoes wedi gwneud Cytundeb newydd gyda ni ar gyfer Tariff Cyfnod Penodol newydd;

8.5.3 os ydym ni'n ymestyn eich Tariff Cyfnod Penodol presennol heb ddilyn ein rhwymedigaethau rheoleiddiol; neu

8.5.4 os ydych chi'n trosglwyddo i Dariff arall gyda ni.

8.6 Gallwch ganslo cyflenwad Tariff Bytholwyrdd ar unrhyw adeg heb roi rhybudd i ni a heb orfod talu ffi derfynu.

### Gallwn derfynu'r Cytundeb trwy roi gwybod i chi yn ysgrifenedig

8.7 Yn ddarostyngedig i Amod 8.8, gallwn derfynu'r Cytundeb a/neu atal eich cyflenwad ar unrhyw adeg trwy roi 42 niwrnod (chwe wythnos) o rybudd ysgrifenedig i chi o'n dymuniad i derfynu'r Cytundeb.

8.8 Gallwn derfynu'r Cytundeb a/neu atal eich cyflenwad Tanwydd ar unrhyw adeg:

8.8.1 os nad ydych chi'n talu'r hyn sy'n ddyledus i ni pan oedd yn ddyledus;

8.8.2 os ydych chi'n defnyddio Tanwydd heblaw at y diben y cytunasom ei gyflenwi; neu

8.8.3 os ydych chi'n torri'r Cytundeb mewn ffordd berthnasol.

Ym mhob achos, byddwn yn rhoi rhybudd ysgrifenedig i chi o flaen llaw a bydd y Cytundeb yn terfynu a/neu cawn ddatgysylltu eich cyflenwad Tanwydd pan ddaw'r cyfnod rhybudd hwnnw i ben.

8.9 Gall y naill neu'r llall ohonom derfynu'r Cytundeb ar unwaith trwy roi rhybudd os yw Ofgem neu'r Ysgrifennydd Gwladol wedi dirymu ein Trwydded.

## 9 Amrywio'r cytundeb

9.1 Gallwn amrywio telerau eich Tariff Bytholwyrdd er anfantais i chi, gan gynnwys cynyddu'r prisiau, yn ôl ein doethineb ar unrhyw adeg. Wrth wneud unrhyw newid o'r fath er anfantais i chi, byddwn yn dilyn y broses a amlinellir yn 9.4 isod. Byddwn yn dweud wrthy'ch sut y gallwch osgoi'r newid os nad ydych yn fodlon arno. Ni fyddwn yn cynyddu prisiau eich Tariff Cyfnod Penodol oni bai bod telerau'r Tariff Cyfnod Penodol hwnnw yn caniatáu i ni wneud hynny, naill ai trwy esbonio'r amgylchiadau penodol lle y gall prisiau gynyddu, neu er mwyn adlewyrchu unrhyw amrywiadau mewn prisiau mynegai ariannol y mae hawl gennym i'w trosglwyddo ymlaen i chi.

9.2 Fel arall, fe allem geisio eich cytundeb i wneud newid i'ch Tariff sydd er anfantais i chi. Os felly, byddwn yn dilyn y broses a amlinellir yn 9.9 isod.

### Y weithdrefn ar gyfer cymhwyso cynnydd mewn taliadau a newidiadau eraill sydd er anfantais i chi

9.3 Os dymunwn gynyddu ein prisiau neu amrywio telerau eraill y Cytundeb mewn ffordd nad yw o fudd i chi, mae'n rhaid i ni ddilyn telerau'r Amod 9 hwn a'r telerau ac amodau sy'n berthnasol i'ch Tariff.

9.4 Os byddwn yn cynyddu ein prisiau neu'n amrywio unrhyw un o delerau eraill y Cytundeb er anfantais i chi, byddwn yn anfon Hysbysiad Cynnydd mewn Prisiau neu hysbysiad tebyg atoch. Bydd yr hysbysiad yn rhoi o leiaf 30 niwrnod o rybudd ysgrifenedig i chi o'r adeg y bydd y newid i'ch telerau'n dod i rym. Bydd ein hysbysiad i chi yn:

9.4.1 disgrifio'r newid;

9.4.2 cymharu'r pris uwch â'ch pris presennol, neu'r telerau sydd wedi'u hamrywio â'ch telerau presennol cyfatebol;

9.4.3 datgan pryd y bydd y newid yn dechrau;

9.4.4 esbonio pam mae'r newid yn digwydd; a

9.4.5 datgan pa gamau y gallwch eu cymryd i osgoi'r newid os nad ydych yn fodlon arno. Bydd hyn yn cynnwys derbyn Tariff arall gennym ni neu drosglwyddo eich cyflenwad i Gyflenwr Tanwydd arall. Ni fydd yn rhaid i chi dalu ffi adael.

9.5 Bydd gennych 20 Niwrnod Gwaith ar ôl y dyddiad y bwriedir i'r newid ddod i rym i:

9.5.1 wneud Cytundeb newydd gyda ni; neu

9.5.2 ddechrau'r broses o drosglwyddo i Gyflenwr Tanwydd newydd a bod y cyflenwr newydd hwnnw'n gwneud cais am eich cyflenwad.

Os byddwch chi'n gwneud un o'r pethau hyn o fewn yr amserlen hon ac yn ddarostyngedig i Amod 9.6, ni fydd y newid yn dod i rym.

9.6 Bydd y newid yn dod i rym o'i ddyddiad gwreiddiol os cawn hysbysiad (gennych chi neu Gyflenwr arall) eich bod chi'n bwriadu trosglwyddo i Gyflenwr Tanwydd arall ac:

9.6.1 nid yw'r broses drosglwyddo'n cael ei gwneud o fewn cyfnod rhesymol (30 niwrnod fel arfer); neu

9.6.2 os oes gennych chi unrhyw daliadau sy'n ddyledus ar eich cyfrif a'n bod ni'n dweud wrthy'ch ein bod ni'n bwriadu atal eich proses drosglwyddo a bod y taliadau hynny'n dal i fod heb eu talu 30 Niwrnod Gwaith ar ôl i ni roi rhybudd i chi o'n bwriad i atal trosglwyddo.

9.7 Ni fyddwn yn dweud wrthy'ch am unrhyw gynnydd yn ein prisiau ar gyfer unrhyw Dariff yn y modd hwn:

9.7.1 os yw'r cynnydd yn unig i'ch trosglwyddo chi i ddull talu arall oherwydd eich bod chi wedi methu â thalu taliadau sy'n ddyledus i ni. Yn lle hynny, byddwn yn dilyn y broses i wneud hyn o dan Amod 11.9; neu

9.7.2 os yw'r cynnydd yn unig oherwydd newid i'r gyfradd TAW.

9.8 Os oes rhaid i ni ddiwygio'r Cytundeb er anfantais i chi oherwydd bod unrhyw lys, Ofgem neu awdurdod cyfatebol yn mynnu ein bod ni'n diwygio'r Cytundeb, neu oherwydd newid i'r Drwydded neu'r gyfraith, byddwn yn cydymffurfio â'r Amod 9 hwn, oni bai ein bod yn cael ein cyfarwyddo fel arall i beidio â gwneud hynny.

### Y weithdrefn ar gyfer cytuno ar newidiadau sydd er anfantais i chi

9.9 Mae'n bosibl y byddwn yn gofyn i chi gytuno ar gynnydd i'ch prisiau neu newid i'ch telerau sydd er anfantais i chi. Os byddwn yn gwneud hyn, byddwn yn rhoi hysbysiad o flaen llaw i chi o'r newid arfaethedig, gan gynnwys y dyddiad y daw i rym, ac yn gofyn i chi gytuno iddo. Bydd yr hysbysiad yn cael ei wneud yn ysgrifenedig neu drwy neges e-bost. Ni fydd yn rhaid i chi dderbyn y newid arfaethedig hwnnw.

9.10 Os byddwch chi'n derbyn y newid arfaethedig, mae'n rhaid i hyn fod yn ysgrifenedig, oni bai ein bod yn dweud wrthy'ch ei bod yn briodol i chi ei dderbyn mewn ffordd arall. Byddwn yn cadarnhau eich cytundeb ac effaith y cynnydd neu'r amrywiad arfaethedig yn ysgrifenedig o fewn pum Niwrnod Gwaith (neu cyn gynted â phosibl wedi hynny) o'r dyddiad y derbyniasom eich cytundeb.

### Y weithdrefn ar gyfer cytuno ar newidiadau sydd o fantais i chi

9.11 Gallwn amrywio telerau eich Tariff Bytholwyrdd neu Gyfnod Penodol mewn ffordd sydd o fantais i chi, gan gynnwys gostwng y prisiau, ar unrhyw adeg yn ôl ein doethineb a heb roi gwybod i chi am y newid penodol. Os byddwn yn gwneud newid sydd o fantais i chi, gallem roi gwybod i chi yn ysgrifenedig. Os felly, byddwn yn esbonio'r rheswm dros y newid a'i effaith.

9.12 Fel arall, mae'n bosibl y byddwn yn gofyn i chi gytuno ar newid i'ch telerau sydd o fantais i chi. Os byddwn yn gwneud hyn, byddwn yn rhoi gwybod i chi pam ac yn esbonio effaith yr amrywiad arfaethedig. Byddwn yn rhoi cyfnod rhybudd priodol i chi, yn dibynnu ar effaith yr amrywiad.

9.13 Os na fyddwch chi'n gwrthwynebu amrywiad arfaethedig yr ydym ni wedi'i esbonio i chi o dan Amod 9.9 uchod, byddwn yn cadarnhau eich cytundeb ac effaith yr amrywiad arfaethedig yn ysgrifenedig o fewn pum Niwrnod Gwaith (neu cyn gynted â phosibl wedi hynny) i chi gytuno â'r newid, neu o'r dyddiad terfyn ar gyfer cyflwyno unrhyw wrthwynebiad heb i chi roi gwybod i ni am unrhyw wrthwynebiad.

## Rhan 4 Taliadau, talu, gwybodaeth a thryloywder

### 10 Trosglwyddo taliadau ar gyfer cwsmeriaid mesuryddion rhagdalau

#### DS: MAE'R ADRAN 10 HON YN BERTHNASOL I GWSMERIAID MESURYDDION RHAGDALU YN UNIG

#### Adennill taliadau a wnaed i'ch cyflenwr blaenorol

10.1 Os oes rhaid i ni dalu unrhyw daliadau i'ch Cyflenwr Tanwydd blaenorol mewn cysylltiad â'i gyflenwad i chi, gallwn adennill y taliadau hynny oddi wrthy'ch chi.

#### Trosglwyddo taliadau sydd heb eu talu i'ch cyflenwr newydd

10.2 Os byddwch chi'n terfynu'r Cytundeb a bod gennych chi ddyled i ni o hyd at £500 fesul tanwydd, mae'n bosibl y byddwn yn caniatáu i'ch Cyflenwr Tanwydd newydd adennill yr arian hwnnw i ni.

### 11 Taliadau a thalu

#### Talu taliadau

11.1 Bydd taliadau eich cyfrif yn cael eu bilio a'u talu fel y disgrifir yn y Cais neu'r Llythyr. Fodd bynnag, os bydd angen i ni eich trosglwyddo i ddewis talu arall, bydd y dewis talu arall yn berthnasol i filio a thalu taliadau o'r dyddiad y gwnawn y trosglwyddiad hwnnw. Amlinellir ein hawliau i wneud hyn yn Amod 11.9 isod.

- 11.2 Byddwch hefyd yn talu unrhyw Drethi perthnasol sy'n gysylltiedig â'n cyflenwad o Danwydd i chi, ac eithrio unrhyw dreth sy'n daladwy gennynt ni ar ein hincwm neu elw.
- 11.3 Oni bai eich bod yn ein talu ni trwy Ddebyd Uniongyrchol neu fesurydd rhagdal, byddwch yn talu swm llawn y taliadau sy'n ddyledus i ni o dan y Cytundeb o fewn 14 diwrnod o ddyddiad bil:
- 11.3.1 ar gyfer cyfrif Cytundeb Gwasanaeth Ynni nad yw Ar-lein, drwy'r post gyda siec neu archeb bost, neu mewn unrhyw fan sy'n gallu derbyn taliadau ar ein rhan; neu
- 11.3.2 ar gyfer cyfrif Cytundeb Gwasanaeth Ynni Ar-lein, dros y rhyngwrwyd, ein mewnrwyd a/neu unrhyw gyfrwng tebyg trwy gerdyn credyd neu ddebyd; neu
- 11.3.3 mewn unrhyw ffordd arall y cytunwn gyda chi.
- 11.4 Os byddwch chi'n talu llai neu fwy na'r swm sy'n ddyledus i ni, gallwn gymhwyso'r tâl hwnnw fel y penderfynwn.
- 11.5 Os byddwch chi'n talu llai nag sy'n ddyledus i ni a'n bod ni'n derbyn y tâl hwnnw, nid yw'r ffaith ein bod ni'n ei dderbyn yn golygu ein bod yn cytuno i'r tâl fel setliad llawn a therfynol o'r swm sy'n ddyledus. Rydych chi'n cytuno:
- 11.5.1 y gallwn gadw'r tâl fel rhandaliad o'r hyn sy'n ddyledus i ni. Nid oes rhaid i ni ddweud wrthyf os byddwn yn gwrthod y rhandaliad hwnnw fel setliad llawn a therfynol o'r swm sy'n ddyledus i ni; a
- 11.5.2 gallwn barhau i adennill unrhyw daliadau sy'n ddyledus gennych.
- 11.6 Gallwn osod unrhyw ddyled sydd gennych chi i ni yn erbyn unrhyw gredyd sydd gennynt ni i chi.
- 11.7 Os byddwch yn torri'r Cytundeb a'n bod ni'n mynd i unrhyw fath o gost o ganlyniad (gan gynnwys wrth adennill taliad hwyr), gallwn godi tâl arnoch a byddwch chi'n talu ein costau rhesymol.
- 11.8 Cawn godi llog ar unrhyw daliadau sy'n ddyledus i ni os ydym ni wedi anfon nodyn atgoffa cyntaf atoch. Bydd unrhyw log yn cael ei godi o'r adeg pan oedd y tâl yn ddyledus ar gyfradd flynyddol o 2% uwchben cyfradd fenthyl sylfaenol The Royal Bank of Scotland plc (neu'r hyn sy'n cyfateb iddo os nad yw cyfradd fenthyl sylfaenol yn cael ei dyfynnu gan The Royal Bank of Scotland plc).

#### **Symud rhwng dulliau talu pan na thelir taliadau**

- 11.9 Os na fyddwch chi'n ein talu ni fel sy'n ofynnol o dan eich dewis talu y cytunwyd arno:
- 11.9.1 gallwn ddisodli'r dewis talu hwnnw â dewis talu arian parod arall a dweud wrthyf y pris sy'n daladwy am y dewis talu arian parod arall hwnnw; a
- 11.9.2 byddwch yn ein talu ni yn unol â'r dewis talu arian parod arall hwnnw ar y pris sy'n berthnasol.

#### **Adennill taliadau nas talwyd yn flaenorol**

- 11.10 Os canfyddwn y buoch chi'n gwsmer i ni yn flaenorol a bod arian yn ddyledus gennych i ni ar gyfer cyfrif blaenorol, gallwn ychwanegu'r symiau hynny sydd heb eu talu at yr hyn sy'n ddyledus gennych i ni o dan y Cytundeb hwn. Yn yr un modd, os canfyddwn fod gennych falans credyd ar gyfrif blaenorol gyda ni, gallwn gymhwyso'r credyd hwnnw i'ch cyfrif o dan y Cytundeb hwn, yn enwedig i leihau unrhyw swm arall sy'n ddyledus gennych i ni.
- 11.11 Os byddwn yn arfer ein hawl o dan Amod 11.10, byddwn yn:
- 11.11.1 ysgrifennu atoch cyn gwneud hynny. Byddwn yn esbonio sut y cyfrifwyd y symiau sy'n ddyledus a sut y bwriadwn eu hadennill oddi wrthyf;
- 11.11.2 rhoi cyfnod rhesymol i chi ymateb i ni ynglŷn â'r symiau sydd heb eu talu. Byddwn yn ystyried unrhyw sylwadau a dderbynnir o fewn y cyfnod a ddarparwn wrth ysgrifennu atoch; ac
- 11.11.3 yn aros o leiaf pythefnos o'r dyddiad pryd y gwnaethom ysgrifennu atoch cyn ychwanegu unrhyw daliadau sydd heb eu talu at eich cyfrif.
- 11.12 Ni fydd Amod 11.10 yn berthnasol i chi os ydych chi'n talu trwy fesurydd rhagdal o dan y Cytundeb presennol hwn, oni bai eich bod chi'n cydsynio i hynny.

#### **Atebolrwydd i dalu**

- 11.13 Os yw'r cwsmer yn fwy nag un unigolyn, bydd pob un o'r unigolion hynny'n atebol ar y cyd ac yn unigol am y cytundebau a'r rhwymedigaethau a weir yn y Cytundeb. Cawn weithredu yn erbyn unrhyw un neu fwy o'r unigolion sy'n gyfystyr â'r cwsmer a/neu ildio atebolrwydd unrhyw un neu fwy o'r unigolion hynny yn gyfan gwbl neu'n rhannol o dan y Cytundeb neu ganiatáu unrhyw lacio arall i un neu fwy o'r unigolion hynny heb effeithio ar atebolrwydd yr unigolion eraill hynny.
- 11.14 Cawn ofyn i chi dalu blaendal rhesymol fel gwarant ar gyfer ein cyflenwad Tanwydd. Os nad ydym eisoes yn ei gyflenwi i chi, gellir gohirio dyddiad dechrau ein cyflenwad hyd nes y byddwch chi wedi talu'r blaendal.

## **12 Tryloywder a darparu gwybodaeth: Ein hymrwymiad i chi**

### **Biliau**

- 12.1 Bydd eich bil yn seiliedig ar:
- 12.1.1 un Tâl Sefydlog a Chyfradd Uned unigol (ar gyfer Tariff nad yw'n Dariff Amser Defnydd); neu
- 12.1.2 un Tâl Sefydlog a Chyfraddau Uned lluosog (ar gyfer Tariff Amser Defnydd).
- 12.2 Bydd pob un o'n biliau yn cynnwys:
- 12.2.1 cymhariaeth o'ch defnydd o Danwydd ar gyfer cyfnod y bil â'ch defnydd yn ystod y cyfnod cyfatebol yn y flwyddyn flaenorol (lle mae'r wybodaeth sy'n ofynnol ar gael);
- 12.2.2 manylion eich Amcanestyniad Personol;
- 12.2.3 manylion ein Tariffau eraill rhatach a'u harbedion amcangyfrifedig;
- 12.2.4 eich Cyfradd Cymharu Tariffau, os oes un ar gael ar gyfer eich Tariff;
- 12.2.5 y datganiad canlynol: "Cofiwch – fe allai fod yn werth i chi feddwl am newid eich tariff neu gyflenwr";
- 12.2.6 nodyn i'ch atgoffa ynglŷn â'ch dull talu;
- 12.2.7 nodyn i'ch atgoffa ynglŷn â chyfnod eich Tariff a pha un a allech chi fod yn agored i dalu ffi derfynu pe byddech chi'n dewis canslo eich Cytundeb gyda ni cyn diwedd y cyfnod hwnnw.
- 12.3 Os na allwn gyfrifo faint o Danwydd yn union a gyflenwyd i chi, gallwn roi bil i chi yn seiliedig ar ein hamcangyfrif gorau o'ch defnydd. Pan gawn wybodaeth am eich defnydd gwirioneddol, byddwn yn addasu eich bil nesaf i adlewyrchu'r wybodaeth honno.
- 12.4 Os oes gennych chi un neu fwy o fesuryddion rhagdal a'ch bod chi'n talu llai na gwerth y Tanwydd a gyflenwn trwy'r mesurydd (neu fesuryddion) rhagdal, byddwch yn talu'r gwahaniaeth i ni. Gallwn fynnu eich bod chi'n talu'r gwahaniaeth i ni trwy:
- 12.4.1 addasu eich mesurydd rhagdal; neu
- 12.4.2 fynnu eich bod chi'n talu cyfandaliad i ni.
- Safonau gwasanaeth gwarantedig**
- 12.5 Byddwn yn paratoi taflen 'Safonau Gwasanaeth' a'i diweddarau bob blwyddyn. Bydd y daflen hon yn esbonio'r safonau gwarantedig sy'n berthnasol i ni a'ch hawl i gael taliad os methwn â chyflawni'r safonau hynny. Byddwn yn ei hanfon atoch yn ysgrifenedig neu drwy neges e-bost, ac yn cyhoeddi'r manylion hyn ar ein gwefan yn [www.scottishpower.co.uk/standards](http://www.scottishpower.co.uk/standards). Gallwch hefyd ofyn am gopi trwy ysgrifennu atom yn "ScottishPower Energy Retail, Customer Services, 320 St. Vincent Street, Glasgow G2 5AD". Bydd y wybodaeth a roddwn yn cynnwys manylion y trefniadau iawndal ar gyfer safonau gwarantedig. Mae'r trefniadau hyn yn golygu y gallwch chi wneud hawliad os methwn â chyflawni'r safonau gwarantedig.
- Label Gwybodaeth am Dariffau, Amcanestyniad Personol a Datganiad Blynyddol y Cyfrif**
- 12.6 Pryd bynnag y rhoddwn eich Prif Delerau i chi, byddwn yn hefyd yn rhoi eich Label Gwybodaeth am Dariffau i chi a, chyn belled ag y bo'n bosibl, eich Amcanestyniad Personol.

- 12.7 Pryd bynnag y rhoddwn wybodaeth i chi am ein taliadau, byddwn hefyd yn rhoi eich Cyfradd Cymharu Tariffau i chi, os oes un ar gael ar gyfer eich Tariff.
- 12.8 Byddwn yn paratoui ac anfon Datganiad Blynyddol (a elwir Eich Crynodeb Blynyddol) atoch bob blwyddyn ynglŷn â'ch cyflenwad. Bydd yn cynnwys gwybodaeth am eich defnydd, Amcanestyniad Personol, arbedion amcangyfrifedig pe byddech chi'n newid i un arall o'n Tariffau, gwybodaeth am ble i gael cyngor diduedd ar newid eich cyflenwr ac effeithlonrwydd ynni, eich dull talu a manylion eraill, gan gynnwys y datganiad canlynol: "Cofiwch – fe allai fod yn werth i chi feddwl am newid eich tariff neu gyflenwr".

#### Adolygiad blynyddol o Dariffau

- 12.9 Gallwn gynnal adolygiad blynyddol o'n holl Dariffau. Os canfyddwn Dariff Bytholwyrdd nad yw ar gael mwyach i gwsmeriaid newydd (sydd felly'n Dariff Marw), ac sy'n ddrutach na'n Tariff Bytholwyrdd rhataf sy'n berthnasol, byddwn yn tynnu'r Tariff Marw yn ôl a'ch symud chi i'n Tariff Bytholwyrdd rhataf sy'n berthnasol.
- 12.10 Yn rhan o'r adolygiad hwn, os penderfynwn eich symud chi i'n Tariff Bytholwyrdd rhataf sy'n berthnasol, byddwn yn rhoi gwybod i chi am hyn yn ysgrifenedig neu drwy neges e-bost. Byddwn yn rhoi o leiaf saith wythnos (49 niwrnod) o rybudd i chi o'n bwriad i'ch symud. Bydd ein hysbysiad yn:
- 12.10.1 datgan pryd y byddwch yn symud i'n Tariff Bytholwyrdd rhataf sy'n berthnasol. Os na fyddwch chi'n cymryd camau i osgoi cael eich symud i'n Tariff Bytholwyrdd rhataf sy'n berthnasol ac yn parhau i ddefnyddio Tanwydd gennym ni, byddwch yn cael eich trosglwyddo ar y dyddiad hwn a bydd telerau ein Tariff Bytholwyrdd rhataf sy'n berthnasol yn gymwys;
- 12.10.2 esbonio Prif Delerau'r Tariff Marw a Phrif Delerau ein Tariff Bytholwyrdd rhataf sy'n berthnasol. Bydd hefyd yn esbonio'r gwahaniaethau pwysicaf, fel y gallwch gymharu'r ddau; ac
- 12.10.3 yn esbonio sut y gallwch osgoi symud i'n Tariff Bytholwyrdd rhataf sy'n berthnasol. Y dewisiadau fydd gwneud Cytundeb arall gyda ni o dan Dariff Cyfnod Penodol neu Dariff Bytholwyrdd arall, neu drosglwyddo i Gyflenwr Tanwydd arall. Byddwn hefyd yn esbonio ble y gallwch gael gwybodaeth neu gyngor diduedd ynglŷn â newid.
- 12.11 Bydd gennych chi 20 Niwrnod Gwaith ar ôl y dyddiad y bwriadwn eich trosglwyddo chi i'n Tariff Bytholwyrdd rhataf sy'n berthnasol i:
- 12.11.1 wneud Cytundeb newydd gyda ni; neu
- 12.11.2 ddechrau'r broses o drosglwyddo i Gyflenwr Tanwydd newydd a bod y cyflenwr newydd hwnnw'n gwneud cais am eich cyflenwad.
- Yn ddarostyngedig i Amod 12.12, os byddwch chi'n gwneud un o'r pethau hyn, ni fyddwch yn cael eich trosglwyddo i'n Tariff Bytholwyrdd rhataf sy'n berthnasol.
- 12.12 Byddwch yn cael eich trosglwyddo i'n Tariff Bytholwyrdd rhataf sy'n berthnasol o'r dyddiad a nodwyd gennym os cawn hysbysiad (naill ai gennych chi neu Gyflenwr arall) eich bod chi'n bwriadu trosglwyddo i gyflenwr arall ac:
- 12.12.1 nid yw'r broses drosglwyddo'n cael ei gwneud o fewn amser rhesymol (30 niwrnod fel arfer); neu
- 12.12.2 os oes gennych chi unrhyw daliadau sy'n ddyledus ar eich cyfrif a'n bod ni'n dweud wrthych ein bod ni'n bwriadu atal eich proses drosglwyddo, a bod y taliadau hynny'n dal i fod heb eu talu 30 Niwrnod Gwaith ar ôl i ni roi rhybudd i chi o'n bwriad i atal y trosglwyddo.

#### Ymddrin â chwynion

- 12.13 Bydd pob bil neu ddatganiad cyfrif yn cael ei anfon gyda manylion ynglŷn â sut y gallwch gysylltu â ni i wneud cwyn am unrhyw agwedd ar ein gwasanaeth. Yn ogystal, mae ein Siarter Ymddrin â Chwynion ar gael ar ein gwefan yn [www.scottishpower.co.uk](http://www.scottishpower.co.uk), neu drwy ysgrifennu atom yn "ScottishPower Energy Retail, Customer Services, 320 St. Vincent Street, Glasgow G2 5AD".

## 13 Cynllun Talu Credyd Debyd Uniongyrchol

- 13.1 Os ydych chi'n ein talu ni trwy Ddebyd Uniongyrchol misol, byddwn yn cyfrifo'r credyd (os oes credyd) sy'n daladwy i chi o dan ein Cynllun Talu Credyd Debyd Uniongyrchol yn rhan o'ch Ailasesiad Blynyddol. Mae manylion ychwanegol ar gael trwy gysylltu â ni neu ar ein gwefan yn [www.scottishpower.co.uk/ddbonus](http://www.scottishpower.co.uk/ddbonus). Byddwn yn esbonio unrhyw greddyd sy'n daladwy i chi yn eich datganiad Ailasesiad Blynyddol.
- 13.2 Os na allwn gyfrifo swm net y credyd yn eich cyfrif am resymau technegol neu oherwydd nad ydych chi wedi rhoi darlleniad mesurydd cywir a chyfredol i ni ar gais, gallwn oedi talu unrhyw daliadau i chi o dan y Cynllun hyd nes y bydd unrhyw broblemau'n cael eu datrys.
- 13.3 Byddwch yn cael un taliad yn unig o dan y Cynllun Talu Credyd Debyd Uniongyrchol mewn unrhyw gyfnod o 12 mis.
- 13.4 Os byddwch chi:
- 13.4.1 wedi ein gadael ni cyn dyddiad yr Ailasesiad Blynyddol;
- 13.4.2 yn torri unrhyw un o'ch rhwymedigaethau o dan y telerau ac amodau hyn; neu
- 13.4.3 yn diffygdlu ar eich taliadau Debyd Uniongyrchol, ni fydd hawl gennych i gael unrhyw daliad o dan y Cynllun Talu Credyd Debyd Uniongyrchol.
- 13.5 Bydd y Cynllun Talu Credyd Debyd Uniongyrchol yn berthnasol yn unig i greddyd sydd wedi cronni yn eich cyfrif yn uniongyrchol o ganlyniad i ordaliad trwy'r cyfarwyddyd debyd uniongyrchol. Ni fydd unrhyw arian a daloch yn uniongyrchol i'ch cyfrif yn cael ei ystyried at ddiben cyfrifo unrhyw greddyd sy'n daladwy.
- 13.6 Ni fydd unrhyw ordaliad a dderbyniwyd gennym ni oddi wrthych chi yn gyfystyr â blaendal.
- 13.7 Mae gennym ni'r hawl i dynnu'r Cynllun Talu Credyd Debyd Uniongyrchol yn ôl ar unrhyw adeg. Os byddwn yn ei dynnu'n ôl, byddwn yn trin hyn fel newid er anfantais i chi os ydych chi'n talu trwy Ddebyd Uniongyrchol ar hyn o bryd, a byddwn yn rhoi gwybod i chi yn y modd a ddisgrifir yn Amod 9.4.

## 14 Gwasanaeth ynni ar-lein

- 14.1 Ar gyfer unrhyw Gytundeb Gwasanaethau Ynni Ar-lein:
- 14.1.1 mae'n rhaid i chi ddarparu unrhyw offer sy'n angenrheidiol i'ch galluogi i gael mynediad at y gwasanaethau ynni ar-lein;
- 14.1.2 mae'n rhaid i chi sicrhau bod gennym ni gyfeiriad e-bost cyfredol ar eich cyfer bob amser;
- 14.1.3 mae'n rhaid i chi ddewis enw defnyddiwr a chyfrinair i gael mynediad at y gwasanaethau ynni ar-lein. Chi yn unig fydd yn gyfrifol am gynnal diogelwch eich enw defnyddiwr a chyfrinair;
- 14.1.4 byddwn yn rhoi rhybudd rhesymol i chi ynghylch newidiadau i'n rheolau ar gyfer defnyddio'r gwasanaethau ynni ar-lein. Byddwn hefyd yn sicrhau bod fersiwn gyfredol o'r rheolau ar gael ar ein gwefan;
- 14.1.5 mae'n rhaid i chi ddilyn y rheolau ar gyfer defnyddio'r gwasanaethau ynni ar-lein a gyhoeddwyd ar ein gwefan;
- 14.1.6 gall y naill neu'r llall ohonon dynnu'n ôl o'r Cytundeb Gwasanaeth Ynni Ar-lein trwy hysbysu'r ochr arall am hynny. Bydd ein Cytundeb yn parhau i fod yn berthnasol, ond ni fydd yn cynnwys darparu'r gwasanaethau ynni ar-lein mwyach. Os penderfynwn dynnu'n ôl o'r Cytundeb Gwasanaeth Ynni Ar-lein, byddwn yn rhoi o leiaf 30 niwrnod o rybudd i chi yn ysgrifenedig. Byddwn yn esbonio'r rheswm dros ein penderfyniad a sut y bydd yn effeithio arnoch. Byddwn hefyd yn dweud wrthych sut y gallwch osgoi'r newid, er enghraifft trwy drosglwyddo i Dariff neu Gyflenwr Tanwydd arall;
- 14.1.7 gallwn atal unrhyw ran o'r gwasanaethau ynni ar-lein, neu'r cyfan ohonynt, ar unrhyw adeg ac am gyn hired ag sydd ei angen i'n caniatáu i archwilio, cynnal a chadw, adnewyddu, atgyweirio neu ddiwygio ein gwefan. Os ataliwn unrhyw ran o'r gwasanaethau ynni ar-lein, neu'r cyfan ohonynt, bydd gennych hawl o hyd i dderbyn gostyngiad gwasanaethau ynni ar-lein o dan delerau ac amodau eich Tariff; ac wrth ddarparu'r gwasanaethau ynni ar-lein, ein rhwymedigaeth yn unig yw arfer y gofal a'r sgil rhesymol a fyddai'n cael eu harfer gan ddarparwr cymwys gwasanaethau o'r fath yn yr un amgylchiadau.



## Rhan 5 Amodau cyffredinol

### 15 Cyffredinol

- 15.1 Ar ein cais, byddwch yn rhoi'r holl wybodaeth sydd ei hangen arnom yn rhesymol i'n caniatáu i gyflawni ein rhwymedigaethau o dan y Cytundeb.
- 15.2 Gallwch gael manylion am ein cynhyrchion a'n prisiau ar ein gwefan yn [www.scottishpower.co.uk](http://www.scottishpower.co.uk), neu drwy ysgrifennu atom yn "ScottishPower Energy Retail, Customer Services, 320 St. Vincent Street, Glasgow G2 5AD".
- 15.3 Bydd unrhyw fethiant gennych chi neu gennym ni i gydymffurfio ag unrhyw rwymedigaethau diffyg talu yn cael ei esgusodi os caiff ei achosi gan ddiwyddiadau neu amgylchiadau y tu allan i'ch rheolaeth resymol chi neu'n rheolaeth resymol ni. Ni fydd unrhyw beth y bydd y naill neu'r llall ohonom yn ei wneud wrth gyflawni unrhyw ddyletswydd gyfreithiol neu reoleiddiol sydd gennym yn gyfystyr â thorri'r Cytundeb.

#### Hysbysiadau o dan y Cytundeb

- 15.4 Bydd ein hysbysiadau ni i chi:
- 15.4.1 yn ysgrifenedig ac yn cael eu hanfon â llaw neu drwy'r post atoch chi yn yr Eiddo; a/ neu
- 15.4.2 o ran Cytundeb Gwasanaeth Ynni Ar-lein, yn cael eu hanfon atoch gan ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost a ddarparwyd gennych, neu'r cyfryw gyfeiriad e-bost arall y byddwch yn ein hysbysu amdano at y diben hwn.
- 15.5 Bydd eich hysbysiadau chi i ni:
- 15.5.1 yn cael eu hanfon yn ysgrifenedig neu'n bersonol i ScottishPower Energy Retail, 320 St. Vincent Street, Glasgow G2 5AD neu'r cyfryw gyfeiriad arall y byddwn yn eich hysbysu amdano at y diben hwn;
- 15.5.2 o ran Cytundeb Gwasanaeth Ynni Ar-lein, yn cael eu hanfon atom gan ddefnyddio ein cyfeiriad e-bost a nodwyd yn y Cytundeb, neu'r cyfryw gyfeiriad e-bost neu ffurflen ar-lein arall a ddarperir ar ein gwefan y byddwn yn eich hysbysu amdano/amdani at y diben hwn; a/neu
- 15.5.3 yn cael eu gwneud dros y ffôn pan fyddwch yn siarad ag un o'n cynrychiolwyr awdurdodedig neu drwy ddefnyddio gwasanaeth ffôn awtomataidd lle mae un wedi'i ddarparu ar gyfer math penodol o hysbysiad.

#### Neilltuo a throsglwyddo hawliau o dan y Cytundeb hwn

- 15.6 Gallwn neilltuo a throsglwyddo unrhyw un o'n hawliau a'n rhwymedigaethau, neu ein holl hawliau a rhwymedigaethau, o dan y Cytundeb (gan gynnwys unrhyw daliadau sy'n ddyledus i ni) i unrhyw un arall, cyn belled â'i fod wedi cael yr holl drwyddedau a chaniatâd gan Ofgem neu awdurdodau rheoleiddiol eraill sydd eu hangen arno i gyflenwi Tanwydd i'r Eiddo. Bydd yr unigolyn hwnnw'n cymryd cyfrifoldeb am yr holl hawliau a rhwymedigaethau fel pe byddai wedi llunio'r Cytundeb gwreiddiol gyda chi. Byddwn yn cael ein rhyddhau o'n holl rwymedigaethau o dan y Cytundeb fel y'i neilltuwyd ac y'i trosglwyddwyd ac, o hynny ymlaen, byddwch yn ymdrin â'r unigolyn arall o ran yr hawliau a'r rhwymedigaethau hynny.
- 15.7 Ni allwch neilltuo na throsglwyddo unrhyw un o'ch hawliau neu'ch rhwymedigaethau o dan y Cytundeb heb gael ein caniatâd ysgrifenedig ni yn gyntaf.

#### Cwmpas y Cytundeb

- 15.8 O ran Cytundeb Llafar:
- 15.8.1 bydd y manylion a gofnodwyd yn y Llythyr yn cynnwys holl delerau'r Cytundeb Llafar;
- 15.8.2 byddwch yn cadarnhau bod y wybodaeth a roddoch i ni yn y Cytundeb Llafar fel y'i cofnodwyd ac y'i manylwyd yn y Llythyr yn gyflawn ac yn gywir; a
- 15.8.3 byddwch yn derbyn y bydd y cyflenwad o Danwydd yn dechrau cyn gynted â phosibl ar ôl dyddiad y Cytundeb Llafar.
- 15.9 Mae holl delerau'r Cytundeb rhyngom ni a chi wedi'u cynnwys yn y telerau ac amodau hyn ac yn y llyfrynnau a'r manylebau a roddasom i chi sy'n ymwneud â'r Cytundeb. Os oes unrhyw anghysondeb rhwng y telerau ac amodau hyn ac unrhyw ddeunydd sy'n benodol i Dariff, y deunydd sy'n benodol i Dariff fydd drechaf. Bydd y telerau ac amodau hyn yn berthnasol i'r holl gyflenwadau Tanwydd a wnawn i chi.

- 15.10 Bydd y Cytundeb yn cael ei ddehongli a'i weithredu:
- 15.10.1 yn unol â chyfraith Lloegr os yw'r Eiddo yng Nghymru neu Loegr; neu
- 15.10.2 yn unol â chyfraith yr Alban os yw'r Eiddo yn yr Alban.

### 16 Rhwymedigaethau parhaus

- 16.1 Os terfynir y Cytundeb, ni fydd hynny'n effeithio ar unrhyw un o'r hawliau, camau unioni neu rwymedigaethau sy'n berthnasol i chi, ni neu'r Dosbarthwr neu'r Cludwr:
- 16.1.1 a fodolai cyn i'r Cytundeb gael ei derfynu neu a ddiwyddodd o ganlyniad i derfynu'r Cytundeb; a/neu
- 16.1.2 y mae'r Cytundeb yn datgan neu'n bwriadu iddynt barhau ar ôl i'r Cytundeb gael ei derfynu.

### 17 Terfyn atebolrwydd

- 17.1 Os byddwn yn torri unrhyw un o delerau'r Cytundeb, neu'n esgeulus, fe allai fod gennych hawl i gael iawndal gennym am unrhyw golled neu niwed a ddioddefoch o ganlyniad.
- 17.2 Ni fydd rheid i ni roi iawndal i chi am golled neu niwed a achoswyd gan unrhyw beth sydd y tu hwnt i'n rheolaeth resymol, nac am unrhyw golled neu niwed canlyniadol, anuniongyrchol neu ariannol sy'n codi o Anfantais Ariannol neu dreuliau gwastraff, neu sy'n gyfystyr â hynny. Mae'n bosibl y bydd rheid i ni roi iawndal i chi os oes gennych chi hawl i gael iawndal am y cyfryw golled neu niwed o dan y gyfraith gyffredinol sy'n ymwneud â marwolaeth, anaf personol neu gamliwiad twyllodrus.
- 17.3 Ni fydd cyfanswm ein hatebolrwydd o ran yr holl hawliadau am golled neu niwed a achoswyd oherwydd i ni dorri'r Cytundeb, ac eithrio hwnnw sy'n digwydd trwy farwolaeth, anaf personol neu gamliwiad twyllodrus, yn fwy nag £1,000,000 mewn unrhyw un flwyddyn galendr.

### 18 Defnyddio gwybodaeth bersonol

- 18.1 Gallwn ddefnyddio neu drosglwyddo i gwmnïau eraill yn ein grŵp o gwmnïau, ein hasiantau a/neu ein contractwyr, unrhyw wybodaeth a roddwch i ni neu ein hasiantau neu gontractwyr, neu yr ydym ni'n ei dal fel arall (boed hynny o dan y Cytundeb hwn ai peidio):
- 18.1.1 i'ch adnabod chi pan fyddwch yn gwneud ymholiadau neu i gysylltu â chi drwy'r post, dros y ffôn, trwy neges e-bost, trwy neges destun neu drwy ddulliau eraill o gyfathrebu electronig;
- 18.1.2 i helpu i weinyddu unrhyw gyfrifon, gwasanaethau a chynhyrchion a ddarperir gan ein grŵp o gwmnïau;
- 18.1.3 ar gyfer ymchwil y farchnad a dadansoddi neu i arddangos a phrofi systemau cyfrifiadurol;
- 18.1.4 i'n helpu ni, cwmnïau eraill yn ein grŵp o gwmnïau, ein hasiantau a/neu ein contractwyr i ganfod dyled, twyll neu golled;
- 18.1.5 i nodi cynigion sydd wedi'u teilwra i'ch anghenion, gan gynnwys cyngor wedi'i deilwra ar effeithlonrwydd ynni;
- 18.1.6 i'ch hysbysu am wasanaethau a chynhyrchion a allai fod o ddiddordeb i chi (os ydych wedi cydsynio i ni wneud hynny), gan gynnwys trwy ymweliad, neges e-bost, galwad ffôn, neges destun neu ddulliau eraill o gyfathrebu electronig; ac
- 18.1.7 at bob diben sy'n gysylltiedig ag unrhyw un o'r dibenion a restrir uchod.
- 18.2 Gallwn hefyd drosglwyddo eich data i wledydd y tu allan i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd at ddibenion:
- 18.2.1 rheoli eich cyfrif;
- 18.2.2 darparu ein cynhyrchion a'n gwasanaethau i chi; a
- 18.2.3 marchnata.
- 18.3 Gallwn ddefnyddio system sgorio awtomataidd sy'n defnyddio gwybodaeth amdanoch o asiantau gwirio credyd er mwyn rheoli eich cyfrif a theilwra ein gwasanaethau i'ch anghenion.
- 18.4 Gallwn fonitro a/neu recordio cyfathrebiadau â chi (gan gynnwys sgysiau ffôn a negeseuon e-bost) i gadarnhau pwy ydych chi, helpu i gynnal diogelwch ac ansawdd y gwasanaeth, ac at ddibenion hyfforddi.

- 18.5 Pan fyddwch chi'n gwneud cais i agor cyfrif gyda ni, gallwn wirio'r cofnodion canlynol amdanoch chi a phobl eraill (gweler Amod 18.6):
- 18.5.1 ein cofnodion ni;
- 18.5.2 cofnodion a ddelir gan Asiantaethau Gwirio Credyd ('CRAs'). Mae CRAs yn cyflenwi gwybodaeth gyhoeddus i ni (gan gynnwys gwybodaeth o'r gofrestr etholiadol) a gwybodaeth a rennir am gredyd ac atal twyll. Dylech fod yn ymwybodol y gallai CRAs osod ôl troed chwilio ar eich ffeil gredyd y gallai benthycwyr/sefydliadau eraill ei weld; a
- 18.5.3 chofnodion a ddelir gan Asiantaethau Atal Twyll ('FPAs').
- Gallwn ddefnyddio'r archwiliadau hyn i asesu ceisiadau, cadarnhau pwy ydych chi ac atal trosedd a gwyngalchu arian. Gallwn hefyd gynnal chwiliadau achlysurol o gofnodion a ddelir gan CRAs ac FPAs i reoli eich cyfrif(on) gyda ni.
- 18.6 Os byddwch chi'n dweud wrthym fod gennych chi briod neu bartner ariannol, byddwn yn eich cysylltu â'ch gilydd, felly mae'n rhaid i chi fod yn siwr bod gennych chi eu caniatâd i ddatgelu gwybodaeth amdanynt. Mae CRAs yn eich cysylltu â'ch gilydd hefyd. Bydd y cysylltiadau hyn yn aros ar eich ffeil chi a'ch ffeiliau nhw hyd y byddwch chi neu eich priod neu bartner ariannol yn gwneud cais llwyddiannus i'r CRAs ac amdatgysylltu.
- 18.7 Gall gwybodaeth ynglŷn â cheisiadau a dderbyniwyd gennym ni gael ei hanfon at CRAs a'i chofnodi ganddynt. Os byddwch chi'n derbyn cynhyrchion a/neu wasanaethau gennym ni, gallwn roi manylion eich cyfrif(on) i CRAs ac, os byddwch chi'n torri eich telerau talu, gallai CRAs gofnodi'r ddyled sydd heb ei thalu. Gallai'r wybodaeth hon gael ei chyflenwi i sefydliadau eraill gan CRAs ac FPAs i gyflawni archwiliadau tebyg a'ch olrhain er mwyn dod o hyd i ble rydych chi ac adennill dyledion sydd gennych. Bydd cofnodion yn aros mewn ffeil am chwe blynedd ar ôl iddynt gael eu cau, p'un a oes unrhyw ddyled wedi cael ei thalu gennych chi neu'n dal i fod yn ddyledus.
- 18.8 Er mwyn helpu i ganfod lladrad nwy'r prif gyflenwad a/neu drydan o'r Eiddo, byddwn yn rhoi manylion eich cyfrif, a allai gynnwys gwybodaeth am droseddau honedig, i'r Gwasanaeth Asesu Risg Lladrad Ynni. Byddant yn defnyddio'r wybodaeth a roddwn iddynt i wirio cronfeydd data cyhoeddus a chronfeydd data eraill a ddelir ganddynt, ac mae'n bosibl y byddant hefyd yn rhoi gwybodaeth i ni a Chyflenwyr Tanwydd eraill er mwyn helpu i ganfod lladrad nwy'r prif gyflenwad a/neu drydan. Cynhelir y gwiriadau hyn yn rheolaidd tra bydd gennych gyfrif gyda ni. Mae'r gofynion sy'n ymwneud â rhannu gwybodaeth gyda'r Gwasanaeth Asesu Risg Lladrad Ynni a chanddo (fel y cyfeirir ato yn yr Amod 18.8 hwn ac yn Amod 18.9) yn berthnasol i bob Cyflenwr Tanwydd i'r un graddau.
- 18.9 Os byddwch yn rhoi gwybodaeth anwir neu anghywir i ni a'n bod ni'n amau neu'n canfod twyll, byddwn yn cofnodi hyn ac mae'n bosibl y byddwn yn trosglwyddo'r wybodaeth hon i FPAs a sefydliadau eraill sy'n ymwneud ag atal trosedd, twyll a/neu wyngalchu arian. Os byddwn yn amau neu'n canfod bod nwy'r prif gyflenwad a/neu drydan yn cael eu lladrata yn yr Eiddo, byddwn yn cofnodi'r manylion ac mae'n bosibl y byddwn yn eu rhannu gyda'r heddlu, y Gwasanaeth Asesu Risg Lladrad Ynni a/neu gyrff eraill sy'n gorfodi'r gyfraith. Mewn amgylchiadau o'r fath, efallai y byddwn yn cofnodi manylion unrhyw droseddau perthnasol neu droseddau honedig perthnasol yr ydych wedi'u cyflawni neu y gallech fod wedi'u cyflawni. Bydd y manylion hynny hefyd yn cael eu rhannu gyda'r Gwasanaeth Asesu Risg Lladrad Ynni ac yn cael eu cadw ganddo, ac fe allai roi'r manylion hynny i Gyflenwyr Tanwydd eraill, ond dim ond mewn amgylchiadau lle mae gennych neu y bu gennych gyfrif gyda'r Cyflenwr/Cyflenwyr Tanwydd perthnasol. Lle y canfyddir unrhyw ladrad gennych, mae'n bosibl y byddwn yn newid telerau eich Cytundeb gyda ni. Yn yr achos hwnnw, byddwn yn rhoi gwybod i chi am y newidiadau perthnasol.
- 18.10 Os ydych chi wedi derbyn cynhyrchion a/neu wasanaethau gennym ni ac nid ydych yn gwneud taliadau sy'n ddyledus i ni, byddwn yn eich olrhain i ddod o hyd i ble rydych chi ac yn adennill dyledion. Gallai dulliau olrhain o'r fath gynnwys rhannu gwybodaeth amdanoch gyda Chyflenwyr Tanwydd eraill.
- 18.11 Gallwn drosglwyddo unrhyw ddyled sydd gennych i ni i sefydliad arall trwy roi'r manylion perthnasol iddynt. Y sefydliad hwnnw fydd yn meddu ar eich dyled wedyn.
- 18.12 Os dywedir wrthym fod gennych chi unrhyw ddyled sydd heb ei thalu i'ch Cyflenwr Tanwydd blaenorol, mae'n bosibl y byddwn yn cysylltu â'ch cyflenwr blaenorol i gael manylion eich dyled. Os dywedir wrthym fod Cyflenwr Tanwydd arall wedi cael cais i gyflenwi Tanwydd i'ch Eiddo, mae'n bosibl y byddwn yn rhoi manylion eich dyled (os oes gennych ddyled) i'r Cyflenwr Tanwydd hwnnw. Gallen hefyd ofyn i'ch Cyflenwr Tanwydd blaenorol am wybodaeth amdanoch i'n helpu ni i feddiannu eich cyflenwad Tanwydd. Efallai y byddwn hefyd yn rhoi gwybodaeth amdanoch i'ch Cyflenwr Tanwydd newydd i'w helpu i feddiannu eich cyflenwad Tanwydd. Gallwn ddarparu gwybodaeth amdanoch i Gyflenwr Tanwydd arall i helpu i ddatrys anghydfodau ynglŷn â'ch cyflenwad Tanwydd.
- 18.13 Gallai eich data hefyd gael ei ddefnyddio at ddibenion eraill gyda'ch caniatâd penodol neu, mewn amgylchiadau cyfyngedig iawn, pan fo'n ofynnol gan y gyfraith neu gorff rheoleidiol. Byddwn yn ceisio rhoi data dienw neu gyfanredol, ond fe allai fod amgylchiadau lle mae angen darparu gwybodaeth bersonol, a dyna fyddwn yn ei wneud yn yr amgylchiadau hynny.
- 18.14 Mae'n bosibl y bydd rhaid i ni rannu gwybodaeth amdanoch gyda chyrrff y llywodraeth at ddibenion mentrau'r llywodraeth. Bydd gwybodaeth bersonol yn cael ei rhannu yn y fath fodd pan fo angen yn unig a, lle bynnag y bo'n bosibl, byddwn yn rhoi mesurau diogelu priodol ar waith.
- 18.15 Os credwn yn rhesymol fod gennych chi (neu unrhyw aelod o'ch cartref) anghenion penodol sy'n berthnasol i gyflenwi Tanwydd i'ch Eiddo, gallwn gofnodi gwybodaeth bersonol amdanoch chi a/neu amdanynt nhw. Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth hon i sicrhau bod eich amgylchiadau'n cael eu cydnabod wrth i ni ymwneud â chi. Gallwn ddatgelu gwybodaeth o'r fath at ddibenion perthnasol i:
- 18.15.1 adrannau gwasanaethau cymdeithasol, elusennau, sefydliadau gofal iechyd a sefydliadau cymorth eraill, os credwn fod hynny'n hanfodol i'ch lles;
- 18.15.2 Cyflenwr Tanwydd arall, os credwn eich bod yn ystyried trosglwyddo i Gyflenwr Tanwydd arall ac y byddai'n fuddiol i chi i rannu hyn; a'r
- 18.15.3 Cludwr, y Dosbarthwr neu'r asiantau mesurydd perthnasol.
- 18.16 Mae gennych chi'r hawl i gael copi o'r data a ddelir amdanoch ar ein systemau trwy dalu ffi. Mae gennych hefyd yr hawl i dderbyn manylion ychwanegol am sut mae'ch data'n cael ei ddefnyddio gennym ni, CRAs ac FPAs trwy ysgrifennu at: Data Protection Officer, ScottishPower Energy Retail, 320 St. Vincent Street, Glasgow G2 5AD. Cewch hefyd gysylltu â'r CRAs sy'n gweithredu yn y Deyrnas Unedig ar hyn o bryd. Mae'n bosibl na fydd y wybodaeth a ddelir gan bob CRA yr un fath, felly fe allai fod yn werth cysylltu â phob un ohonynt. Byddant yn codi ffi fach arnoch. Mae'r manylion cyswllt ar gyfer y prif CRAs sy'n gweithredu yn y Deyrnas Unedig ar hyn o bryd fel a ganlyn:
- 18.16.1 Call Credit, Consumer Services Team, PO Box 491, Leeds LS3 1WZ. Ffoniwch 0845 366 0071 neu ewch i [www.callcredit.co.uk](http://www.callcredit.co.uk).
- 18.16.2 Equifax Ltd, Customer Service Centre, PO Box 10036, Leicester, LE3 4FS. Ffoniwch y rhif rhadffon 0800 014 2955 neu ewch i [www.equifax.co.uk](http://www.equifax.co.uk).
- 18.16.3 Experian, Consumer Help Service, PO Box 8000, Nottingham NG80 7WF. Ffoniwch 0344 481 8000 neu ewch i [www.experian.co.uk](http://www.experian.co.uk).
- 18.17 Os hoffech gael rhagor o wybodaeth am y data a drosglwyddwn i'r Gwasanaeth Asesu Risg Lladrad Ynni, cysylltwch â'n Swyddog Diogelu Data yn y cyfeiriad a roddir yn Amod 18.16 uchod. Mae Experian wedi'i benodi ar ran Ofgem yn ddarparwr y Gwasanaeth Asesu Risg Lladrad Ynni. Gellir cael rhagor o wybodaeth am y Gwasanaeth Asesu Risg Lladrad Ynni trwy gysylltu ag Energy Company Data (ECD), Experian, The Sir John Peace Building, Experian Way, NG2 Business Park, Nottingham, NG80 1ZZ.

SYLWER: Mae Amodau 18.5 i 18.7 yn berthnasol i'r cwsmeriaid hynny sydd wedi gwneud cais am gynhyrchion a/neu wasanaethau gennym ni ers 1 Hydref 2001 yn unig.

**Mae hyn yn ffurfio Telerau ac Amodau Cyffredinol ScottishPower Gas and Electricity ar gyfer Cwsmeriaid Domestig.**

# Telerau cysylltu cenedlaethol

Rydym ni'n gweithredu ar ran y Dosbarthwr i wneud cytundeb gyda chi, sy'n golygu y byddwch chi a'r Dosbarthwr yn derbyn y Telerau Cysylltu Cenedlaethol ('NTC') ac yn cytuno i lynu wrthynt. Bydd y cytundeb hwn yn dod i rym ac yn effeithio ar eich hawliau cyfreithiol o'r adeg y byddwch yn gwneud y contract hwn. Mae'r NTC yn gytundeb cyfreithiol, sy'n amlinellu hawliau a dyletswyddau o ran y cysylltiad y mae'r Dosbarthwr yn cyflenwi trydan trwyddo i'r Eiddo neu'n derbyn trydan trwyddo o'r Eiddo. Os hoffech chi gael copi o'r NTC neu os oes gennych chi unrhyw gwestiynau amdano, ysgrifennwch i'r cyfeiriad canlynol:

Energy Networks Association,  
6th Floor,  
Dean Bradley House,  
52 Horseferry Road,  
London, SW1P 2AF  
[www.energynetworks.org](http://www.energynetworks.org)

## Er gwybodaeth: Nodweddion cyflenwi

Bydd y trydan a gyflenwir i'r Eiddo trwy'r rhwydwaith dosbarthu trydan fel arfer ar un o'r folteddau a nodir isod a bydd ganddo'r amleddau, niferoedd gwedd a ffiniau amrywiad sy'n gysylltiedig ag ef:

- Foltedd cysylltu ac amrywiadau a ganiateir: ar 400/230, 460/230, a 230 folt – plws 10% neu finws 6%.
- Nifer gweddau'r cyflenwad: ar 400/230 folt – tri; ar 460/230 folt a 230 folt – un.
- Amledd y cyflenwad ac amrywiadau a ganiateir: ar bob lefel foltedd – 50 herts, plws neu finws 1%.

Mae fersiynau Saesneg a phrint bras o'r daflen hon ar gael ar ein gwefan:

**[scottishpower.co.uk/legal/terms-and-conditions](http://scottishpower.co.uk/legal/terms-and-conditions)**

Rydym yn deall pwysigrwydd cadw eich manylion personol yn ddiogel. I wybod mwy, ewch i **[getsafeonline.org](http://getsafeonline.org)**

